Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON

11.03.24

Annwyl Rieni/ Gofalwyr,

A fyddech cystal y chymryd ychydig o funudau i ddarllen y wybodaeth ganlynol. A fyddech hefyd yn rhannu'r wybodaeth berthnasol gydag unrhyw aelodau eraill o'r teulu a all fod a chyfrifoldeb i ddod a, neu gasglu eich plentyn o'r ysgol. Diolch

BINGO – **Cofiwch am y Bingo Pasg sydd i'w gynnal ar nos Iau Mawrth y 21ain**. Bydd y gemau yn cychwyn am 6.30 y.h. Oherwydd rheolau Iechyd a Diogelwch, nifer cyfyngedig fydd yn gallu cael mynediad, ac felly bydd angen sicrhau eich bod wedi prynu tocyn cyn y noson er mwyn cael mynediad. Mae tocynnau ar gael o'r swyddfa ar ddiwedd dydd am 3.15 (£1.50 i blentyn, £1.50 i oedolyn). **Bydd dydd Gwener, Mawrth 15fed yn ddiwrnod di-wisg, ble gofynnir yn garedig am gyfraniadau o wyau Pasg tuag at y bingo**.

TRAFFIG – Hoffwn atgoffa pob rhiant a gofalwr i gymryd pwyll ar y maes parcio wrth yrru i mewn ac wrth ymadael a'r safle. Mae'r maes parcio yn le prysur iawn yn enwedig ar ddiwedd dydd, ac felly gofynnwn i bawb gymryd pwyll gan wylio plant a cherddwyr, a cheir eraill. Cyflymder uchafswm y dylid gyrru car o fewn safle'r ysgol yw **5mya**. Wrth gasglu eich plentyn o'r ysgol, a fyddech cystal â sicrhau ei fod ef/hi yn cael ei oruchwylio gan oedolyn wrth wneud ei ffordd tuag at y car neu wrth gerdded adref, gan ein bod wedi derbyn adroddiadau o bryderon sydd yn ymwneud a phlant yn rhedeg tuag at yr ardal barcio pan yn brysur iawn ar ddiwedd y pnawn heb eu goruchwylio. Gofynnwn hefyd i unrhyw blant sydd yn beicio neu ar sgwter i beidio â reidio rhain ar lwybrau yr ysgol gan fod rhain yr ardaloedd prysur yn y bore ac ar ddiwedd y dydd. Diolch.

DIWRNOD TRWYN COCH - **Byddwn yn cefnogi diwrnod Trwyn Coch ar ddydd Iau Mawrth 21ain**. Gall y plant wisgo trwyn coch i'r ysgol ac os ydych yn dymuno gallwch roi cyfraniad tuag at yr ymgyrch ar y dydd.

DOD A OFFER A THEGANAU I'R YSGOL - Mae rhai disgyblion yn dod a theganau, pêl-droed ac eitemau eraill o adref i'r ysgol. Gofynnwn i bob rhiant osgoi hyn os gwelwch yn dda gan fod yn achosi sawl digwyddiad y gellir ei osgoi. Mae'r digwyddiadau yn ymwneud ac eitemau yn torri, mynd ar goll neu blant yn ffraeo drostynt, yn gallu cymryd llawer iawn o amser yr athrawon oddi wrth yr amser addysgu yn y dosbarth. Os oes angen i'r plant ddod ac eitemau penodol i'r ysgol, yna bydd yr athro/awes dosbarth yn eich hysbysu o hyn.

EISTEDDFOD YR URDD – Hoffwn longyfarch yr holl blant sydd wedi bod yn cystadlu yn yr eisteddfodau llwyfan a dawns yr Urdd dros yr wythnosau diwethaf. Roedd pob un wedi perfformio yn wych ac roedd yr ysgol yn falch iawn ohonynt. Da iawn iddyn nhw i gyd.
Mae rhai o'r plant wedi cael llwyddiant arbennig iawn, ac felly bydd sawl un yn cystadlu yn yr eisteddfod ranbarthol Fflint/Wrecsam yn y Stiwt ar ddydd Sadwrn y 16eg o Fawrth. Pob lwc i'r holl blant fydd yn cystadlu .

DIWEDD TYMOR - **Bydd yr ysgol yn cau i'r plant am y Pasg ar ddydd Iau Mawrth y 21ain**. Bydd y dydd Gwener yr 22ain yn ddiwrnod hyfforddiant i staff. Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddymuno Pasg hapus i chi gyd, gan ddiolch am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad yn ystod tymor prysur arall yn yr ysgol. Edrychwn ymlaen felly i groesawu pawb yn ôl i'r ysgol ar ôl y Pasg, gan edrych ymlaen at brysurdeb tymor yr Haf. **Bydd yr ysgol yn ail agor i'r plant ar ddydd Llun Ebrill 8fed**.

Yn ddiffuant,

Mr Rhodri Jones
Pennaeth